# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH* HYDFEF 1975 RHIF 24

# CRONFA CAERDYDD

Fe fydd pob un ohonoch erbyn hyn wedi clywed am bwyllgor cronfa Mil o Filoedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae'r gweithgareddau wedi dechrau gyda noson fythgofiadwy yn Ninas Powys, ac mae yna dair noson fawr yn ein haros yn Nhachwedd, gyda rhywbeth at ddant pawb!

Fel y gellid disgwyl hwyrach yn y flwyddyn arbennig hon, mae Merched y Wawr wedi efelychu Ifor Bach ac wedi cipio castell Caerdydd ar gyfer y seithfed o Dachwedd. Fe gewch hanes y noson mewn lle arall yn Y Dinesydd. Ond rhaid tynnu eich sylw hefyd at noson ddiddorol i rieni ac i blant, Cymraeg a digymraeg yn y Reardon Smith nos Sadwrn, Tachwedd 15. Bydd yn dechrau am 7.30. BACK TO SQUARE ONE yw enw'r cynhyrchiad ac fe roddir y noson i'r Eisteddfod yn rhad ac am ddim gan gwmni rhyng-genedlaethol Miss Jane Phillips. Mae'n Saesneg er mwyn dwyn sylw'r eisteddfod i'r holl blant (a rhieni) yng Nghymru sy'n dechrau dysgu'r Gymraeg ac am wybod mwy, gobeithio, am yr eisteddfod. Felly, dewch yn llu, a dewch â'ch plant (a phlant eich cyfeillion) gyda chi.

Ar ôl ichi gael cymaint o flas ar bypedau Miss Phillips nodwch na fedrwch fforddio colli noson ARBENNIG yn y Sherman nos Sul, Tachwedd 30. Fe gyst bunt yn unig ichi weld a chlywed rhywbeth sy'n unigryw yng Nghymru, hyd y gwn - sef noson ar y cyd wedi ei threfnu gan Iddewon a Chymry'r ddinas. Fe glywch Gôr bydenwog *Zimriyah*; Miss Ann Griffiths, a'i thelyn yn pontio'r ddau ddiwylliant a chôr penillion Rhydfelen fydd yn rhoi'r chwistrelliad Cymraeg i'r noson. Gan bod ambell Gardi yn digwydd bod ar y pwyllgor Cymraeg, mae wedi mynd yn gystadleuaeth frwd rhwng Cardis ac Iddewon i werthu tocynnau, a chan mai dim ond 450 y mae'r Sherman yn ddal, a chan eu bod yn gwerthu fel slêcs yn barod, brysiwch i gael eich tocyn chi! Y gŵr sy'n gyfrifol am eu dosbarthu yw Mr Merfyn Griffiths, Llanhari. Fe fydd hanner elw'r cyfarfod hwn yn mynd i Gynllun Tŷ Hillel yn y ddinas a'r hanner arall i'r Eisteddfod. Fe fydd brochur hardd, yn nodi enwau a hysbysebion ein cefnogwyr, ar gael yn ystod y noson.



RHODRI MORGAN

# BORE DA!



*Llun Cen Williams*

Dyma Hefin Tomos o Heol Ninian, Caerdydd yn profi rhyddid am y tro cyntaf ers pedwar mis fore Gwener, Hydref 10fed. Carcharwyd Hefin yng Ngharchar Caerdydd fel canlyniad i weithred yn erbyn Swyddfa'r Post, rhan o ymgyrch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Rhyddhawyd Rhodri Morgan (Radur) o garchar Abertawe yr un bore. Croeso iddynt ill dau yn ôl i'n plith.

Diddorol nodi fod Swyddfa'r Post wedi gweld yn dda i gyhoeddi datganiad cynhwysfawr ar y Gwasanaeth Post a'r Iaith Gymraeg ddiwrnod neu ddau cyn rhyddhau Hefin a Rhodri (a'u cyd-weithredwyr Elinor Roberts a Gwenno Peris Jones a garcharwyd am yr un cyfnod yng Ngharchar Pucklechurch, Bryste).

## Cymrodorion y Barri

Yng nghyfarfod cyntaf y Gymdeithas am 1975-76 fe ddywedodd y Llywydd, Mr Elwyn Richards fod y flwyddyn yn un arbennig yn ei hanes. Bron 70 mlynedd yn ôl fe sefydlwyd Cymdeithas yn y Barri a fabwysiadodd yr arwyddair: "Fy nghenedl, fy iaith, fy ngwlad."

Yn naturiol felly bydd tuedd eleni i edrych yn ôl ar droeon yr yrfa. Dywedodd Mr Richards i'r Gymdeithas gael ei sefydlu 'nôl ar ddechrau'r ganrif gyda'r bwriad o sichrau Cymreictod yr ardal. Ond fel yr edwinodd yr iaith yma felly hefyd y profodd y Gymdeithas gyfnod o drai a bu bron i arweinwyr Y Cymrodorion roi'r gorau iddi. Ond fe fywiogodd y bywyd Cymreig yn ei dro a bu sefydlu Ysgol Gymraeg yn y dre yn ben-llanw allweddol yng Nghymreictod y Barri.

Felly, meddai'r Llywydd, dengys hanes y Gymdeithas sut y tyfodd, edwinodd ac atgyfnerthodd "y ddraig" Ond nid dyma'r amser i laesu dwylo: mae'r dathlu eleni yn gyfle i weithio ar gyfer llanw mwy gogoneddus eto, ac yn galondid i gryfhau'r bywyd Cymraeg fwyfwy eto.



"CLYWED FOD Y POLIFFONIC YN CHWILIO AM GONDYCTOR"

## Hen Lyfrau yn eisiau

hen neu ail-law. Hefyd cylchgronau a phapurau. Gallwn alw i'w gweld.

**Siop y Pethe**
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120


# Y Testament Newydd

Mae'n anodd canmol digon ar y cwmni a gyflwynodd *Y Testament Newydd* yn y Tabernacl ddechrau'r mis hwn. Cyflwyniad arbennig yw hwn gan Gwmni Lleisiau Llên i ddathlu'r achlysur cyhoeddi'r cyfieithiad newydd o'r Testament Newydd, cyflwyniad wedi ei lunio a'i gynhyrchu gan Miss Norah Isaac.

Du syml oedd gwisg pob un. Y llwyfan oedd sedd fawr a phulpud y capel ond aethpwyd â'r gynulleidfa drwy bedair canrif o hanes. Daeth cymeriadau William Salesbury, Richard Davies, Yr Esgob William Morgan ac eraill yn fyw i bawb: 1567 - 1588 - 1620 - 1975.

Roedd hi'n brofiad dramatig i weld Paul yn wynebu Agripa. Daeth geiriau'r Epistolau'n fyw mewn ffordd newydd, ond y profiad cyflawn oedd gweld Iesu yn iacháu. Gymaint oedd llawenydd a gorfoledd y cyfan! Yna tristwch ac ing y Croeshoelio; yn wir, ar y diwedd, hoeliwyd y gynulleidfa i'w seddi wedi'r fath brofiadau ysgytwol. Nid codi a mynd a wnaethant ond, yn hytrach, fe'u gorfodwyd i adael i'r profiad lifo ymlaen cyn codi a symud allan.

Cwmni a ymatebodd i'r eithaf oedd Lleisiau Llên, bob un ohonynt. Roedd y cydsymud a'r cyd-lefaru'n ddi-fai ac emosiwn yn cael ei greu yn y gynulleidfa, a'i newid a'i gynhyrfu gan berfformiadau eneiniedig. Sut y gallent gynnal y fath emosiwn? Ateb John Owen oedd mai deunydd y Testament Newydd oedd yn mynnu'r ymateb hwn. Dywedodd Miss Norah Isaac na fyddai hi'n hapus nes i bob aelod capel yng Nghymru weld y perfformiad. Tlotach yw'r rhai na chaiff y cyfle hwn.

NIA DANIEL


### YN EISIAU

FFLAT I DDWY YM MHONTCANNA NEU'R CYLCH. GYDA DODREFN NEU HEB DDODREFN. CYSYLLTER Â MISS PHILLIPS, FFÔN: 371273.

## Bwydydd da

"Os am bartri Nadolig
neu bartri penblwydd
Mae paratoadau
yn hynod o rwydd,
Bydd cigoedd a llysiau
a gateaux di-ri
Yn barod i'ch ffrindiau
os ffoniwch chi NI."

Ffôn: CAERDYDD 371273


### TWINCL, TWINCL

Bydd goleuadau Theatr Sherman yn tywynnu'n ddisgleiriach o hyn ymlaen wedi i Meic Watkins, technegwr goleuo hynaws y theatr, briodi Sheila ddydd Sadwrn, Hydref 11eg. Mae Meic, sydd wedi dysgu tipyn o Gymraeg, yn gymeriad cyfarwydd a pharod ei gymwynas i bawb sydd wedi ceisio trefnu nosweithiau ar lwyfan y Sherman. Pob hwyl iddo ef a Sheila yn eu bywyd newydd.

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

# colofn sbectol SIAN *

### BLISTARS

Rwyf wedi derbyn llythyr neis! Anfonodd John Albert ('tydio'n gariad!) restr o wŷr busnes sy'n siarad Cymraeg, mewn ateb i'r syniad yn y golofn y tro diwethaf.

Cerddwch o gwmpas y brifddinas ac fe gewch beinta gan Mr Wiliam Davies, dyn y llaeth yn Nhrelai, a thorri'ch gwallt gan William yn Rhydypennau. Os ewch at Mrs Roberts yn y siop iechyd yn Wellfield Road, ni fydd angen ichi ymweld â Mr Jones y meddyg yn Heol Albany. Os na ellwch weld eich ffordd yn glir i fynd yno, galwch yn Heol y Parc gyda Mr Brian Blake yr Optegydd (partner Bonner Morgan) os gallwch weld Heol y Parc...... Mwy y tro nesaf.

### POEN BOL

Glywsoch chi am y gynulleidfa mewn eglwys yn cael eu taro'n wael ar ôl llyncu'r gwin? Tybiwyd fod olion sebon yn y gwydrau. 'Rwyf yn sicr na fyddant yn canu Calon Lan am sbel!

### CUR PEN

Problem arall sydd gan Arwel Ellis Owen yn ôl erthygl yn 'Y Cymro' yn ddiweddar. Soniai fod "angen, datrys y broblem iaith mewn rhaglenni Cymraeg...... Yn sicr dwyf fi ddim yn gredwr mewn defnyddio Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg i ddod dros y broblem" meddai. Gobeithiaf fod rhai o'i fêts ar y radio wedi darllen yr ysgrif.

Soniais droeon am enghreifftiau o'r Saesneg yn treiddio i'r rhaglenni Cymraeg. Os oes raid i mi ddioddef gwrando ar ddadleuon y Toriaid yn eu cynhadledd flynyddol, gadewch i mi wneud hynny yn Gymraeg. Clywais dri adroddiad a thri siaradwr yn parablu yn Saesneg ar "Gymru Heno" a "Bore Da". Dim mwy os gwelwch yn dda.

### POEN TYFU

Roeddwn yn darllen y cyfarwyddiadur teleffon y noson o,r blaen, dim byd i'w wneud y nosweithiau tywyll yma. O dan y penawd "Youth Organizations" wedi ei stwffio'n daclus rhwng Sgowtiaid Miskin a Iwths Penarth, roedd - Mudiad Ysgolion Meiphryn!! Beth arall alla'i ddweud, ond rhoi'r rhif i chi - 36113




### GWALLGOFRWYDD

Diolchaf i Mrs C. Jones Llanishen am y sylwadaeth y tro diwethaf - fe gofiwch i ŵr mewn ystordy gwerthu dillad merched, wrthod siec Gymraeg ganddi. (Buaswn yn ddiolchgar o dderbyn enw'r siop Mrs Jones) Beth bynnag, ês i brynu trowsus i Wallis ac ysgrifennais siec Gymraeg fel arfer, ac aeth y sgwrs gyda'r Rheolyddes yn debyg i hyn.

Hi - A wnewch chi ei hysgrifennu yn Saesneg?

Fi - Pam?

Hi - 'Rydym wedi derbyn sieciau Cymraeg erioed, ond yn awr mae'r banc yn mynnu bod ein cwsmeriaid yn ychwanegu'r Saesneg ar y sieciau a ysgrifennwyd yn Gymraeg.

Fi - Gwarthus.

Aeth y ddadl ymlaen, a gadewais y siop heb drowsus! Wallis i ddim yno a Walliai ddim yno eto chwaith!

### CANYS GANWYD

Llongyfarchion i Gwyn a Branwen Jarvis, Creigiau, ar enedigaeth eu cyntafanedig. Mae Gwyn ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Cydbwyllgor Addysg ac mae Branwen wedi bod yn gweithio ym maes y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yn y ddinas.

Llongyfarchion hefyd i Delyth ac Eric Dafydd ar enedigaeth eu mab, Dafydd Gruffydd. Maen nhw'n byw yn Llandaf.

LLONGYFARCHIADAU i Heulwen a Ieuan Jones, Caerffili ar enedigaeth mab sef HUW, brawd i Rhian.

Llongyfarchiadau a phob hwyl am y dyfodol i Carys a Clive (Roberts) wedi eu priodas yng Nghaerdydd ar y 3ydd o Hydref.

# TUDALEN Y DYSGWYR

## NEWYDDION

### Cyrsiau Cymraeg

Tachwedd 15 *Cwrs Undydd Cymdeithas yr Iaith - Ysgol Gymraeg Treorci. Trefnydd: S. George, Crud-yr-Awel, Heol yr Orsaf, Treherbert.*

Rhagfyr 5-7 *Cwrs Penwythnos Cymdeithas yr Iaith - Gwersyll yr Urdd, Llangrannog. Trefnydd: Anne Uruska, Coleg y Drindod, Caerfyrddin.*

Rhagfyr 5-7 *Cwrs Penwythnos Tŷ Dyffryn, Sain Nicolas, ger Caerdydd. Manylion oddi wrth Y Warden.*

Ionawr 16-18 *Cwrs Penwythnos yn yr "Hill", Pen-y-Pound, Y Fenni (Abergafenni), Gwent. Pris y cwrs yw £10, i bobl Gwent £9.*

*Wel dyna ddigon o gyrsiau i chi - gobeithio y gwnaiff athrawon ysgolion nos dynnu sylw eu dosbarthiadau atynt. Cafwyd ymateb da i'r dosbarth newydd yng nghapel y Crwys - mae 15 o enwau gennym eisoes ac rwy'n siwr y bydd rhagor eto cyn i'r rhifyn yma ymddangos. Hyfryd oedd clywed fod dros 150 wedi ymuno â'r dosbarthiadau i ddysgwyr yn y Ganolfan yn Heol Conwy eleni eto. Mae rhagolygon dosbarthiadau llwyddiannus iawn yn ysgol nos Yr Eglwys Newydd hefyd gyda dros 100 wedi cofrestru. Yn wir rwy'n meddwl weithiau o weld y ffigurau yma y bydd pawb cyn hir wedi dysgu'r iaith.*

### Sgwrsio yn Gymraeg

*Mae angen llawer mwy o weithgareddau cymdeithasol i'r dysgwyr yma lle gallant gymysgu mwy a mwy gyda Chymry Cymraeg sydd â digon o amynedd i siarad Cymraeg â hwy. Teimlaf fod dysgwyr yn cael eu trafod fel rhyw greaduriaid o blaned arall gan y mwyafrif o'r Cymry Cymraeg naturiol, ac mae geiriau fel "rydw i" fel cloch y gwahanglwyf yn rhybudd iddynt rhag mentro siarad Cymraeg â hwy. Da gweld, serch hynny, fod Cymdeithas y Dysgwyr wedi trefnu rhaglen gymdeithasol lawn ar gyfer y misoedd nesa 'ma.*

### Newyddion

*Mae'n debyg y gwelir colofn o newyddion i ddysgwyr yn y* Western Mail *a'r* Cymro *cyn bo hir - felly beth am roi archeb am Y Cymro nawr gyda'ch papurwerthwr lleol?*

### Danfonwch air

*Ga' i wneud apel eto i bobl sgrifennu ata' i os oes gyda chi rywbeth diddorol i'w ddweud. Beth am i chi ddysgwyr geisio mynd ati i sgrifennu pennill neu gan neu stori neu unrhyw beth?*

*Danfonwch ata' i, John Albert Evans, 54 Fidlas Rd., Llanishen. Rhif ffôn: 754559. I orffen, gofynnodd rhywun i mi y dydd o'r blaen beth ydy'r geiriau Cymraeg am "corridor", "pension" a "caravan". Oes rhywun yn gallu cynnig rhywbeth gwell na'r rhai sy gyda ni ar hyn o bryd? Gobeithio clywed.*

*J.A. EVANS.*

## Cymdeithas y dysgwyr

**Hydref 23 - NOSON SGITLS, yn Yr Heathcock, Llandaf, o 8p.m. ymlaen.**

**Tachwedd 7 - NOSON O HWYL A CHÂN yng Nghlwb y Blue Dolphin, Heol y Crwys 8p.m. ymlaen. Tocynnau 20c. Lle i 70. Cysyllter â Tony Couch (32628).**

**Tachwedd 21 - NOSON GOFFI yng nghartref Mr a Mrs Jobbins, 115 Wellwood, Llanedeyrn, 7.30p.m. ymlaen.**

**Rhagfyr 4 - NOSON GOFFI yng nghartref Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina, 7.30p.m. ymlaen.**

## DYSGWYR Y GANOLFAN

Ail-ddechreuodd y tymor ar nos Fercher y 10fed o Fedi pan ddaeth llu o bobl i ymuno â chwrs Blwyddyn i ddysgu'r Gymraeg. Byddant yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos am y ddau dymor cyntaf ac unwaith yr wythnos yn ystod yr Haf. Dysgir hwy gan dîm o athrawon gwirfoddol a bydd llawer o'r arian a delir gan y disgyblion am y Cwrs yn mynd tuag at gynnal y Ganolfan.

Yn ogystal â'r flwyddyn gyntaf, mae Cwrs Wlpan o 17 o bobl yn cyfarfod bum gwaith yr wythnos ac yn dilyn cwrs un wythnos ar ddeg er mwyn dysgu siarad yr iaith mewn byr amser. Unwaith eto mae nifer o athrawon gwirfoddol wrth y gwaith.

Ar ben hynny mae dau ddosbarth yr ail flwyddyn ac un dosbarth y drydedd flwyddyn ac i goroni'r cyfan mae Clwb Cymraeg i'r bobl hynny sydd wedi dod yn rhugl yn yr iaith. Eisoes mae Sian Emlyn, John Idris Evans a Lena Pritchard Jones wedi bod yn sgwrsio â nhw a disgwylir nifer o bobl eraill yma yn ystod y tymor.

Fe ddylwn hefyd longyfarch dwy ddysgreg o'r Ganolfan a fu'n dilyn Cwrs Safon A dan arweiniad Ethni Jones ac Eiry Humphreys am eu llwyddiant yn yr arholiad Safon A dros yr Haf. Cafodd Christine Thomas radd A a Wyn Jones radd B. Llongyfarchiadau gwresog iddynt.

GWILYM ROBERTS

### Ysgol Sul y Dysgwyr

**Mae Dosbarth Ysgol Sul y Dysgwyr wedi dechrau ac wedi cydio. Mae croeso Heol y Crwys i bob dysgwr a ddaw drwy'r drysau ar brynhawn Sul am 2.30 yn un gwresog iawn. Mr Viv Bires a'i wraig Eleri oedd aelodau cyntaf y dosbarth ac erbyn hyn mae Mr John Couch a Mr a Mrs Eddie a Betty Latham wedi ymuno â nhw. Mae hwn yn gyfle i barau priod lle mae'r naill neu'r llall neu'r ddau yn dysgu Cymraeg, i ddod gyda'i gilydd i ymarfer yr iaith yng nghlyw ei gilydd!**

Dydyn ni ddim yn ffurfio un dosbarth am byth. Rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn dod, yn cyfarwyddo â geirfa newydd y Beibl ac yn symud yn gyflym i ddosbarthiadau pobl ifanc yr eglwys neu i ddosbarth y gwragedd neu'r gwŷr, fel y mynnwch. Mae hyn yn bwysig i chi gael dod yn rhan o gymdeithas uniaith ein capeli. Mae Mr Chris Coles eisoes wedi graddio ac yn teimlo'n gartrefol yn un o ddosbarthiadau'r Ysgol Sul.

Peidiwch â becso dim os dydych chi ddim yn gwybod llawer am y Beibl. Wel na, ddylwn i ddim dweud hyn efallai. *Becswch, a dewch* erbyn 2.30 i Heol y Crwys. Cofiwch, dysgwyr ydym ni i gyd yn y maes hwn.

ETHNI JONES

### GEIRFA

ymateb - response
rhagolygon - prospects
llwyddiannus - successful
cofrestru - to register
gweithgareddau - activities
cymdeithasol - social
amynedd - patience
gwahanglwyf - leprosy
cloch y gwahanglwyf - leper's bell
archeb - order
papurwerthwr - newsagent

"DIM NEWID AR Y BWS HWN, SYR."



# Gwers i'r Cwmni Opera

Cafwyd noson o adloniant difyr a gwreiddiol dros ben nos Fercher, Medi'r 24ain pan gyflwynwyd rhaglen o weithiau Mozart gan Ysgol Gyfun Llanhari. Hwn oedd y perfformiad cyntaf o dri pherfformiad yn yr hwyr er i'r pentrefwyr lleol a'r gweddill o ddisgyblion yr ysgol gael cyfle i'w weld brynhawn Mawrth. Mor wych oedd hi gan bawb i glywed opera gan Mozart wedi ei chanu mewn Cymraeg graenus; oes gwers yma i'n Cwmni Opera "Cenedlaethol" bondigrybwyll tybed?



*Dylan Jones* PAPAGENO

Rhannwyd y rhaglen yn ddwy ran: braslun o fywyd a gweithiau Mozart oedd yn gyntaf a pherfformiwyd amryw o'i weithiau gan y disgyblion; canodd Siân Wyn Davies y delyn; perfformiwyd darnau piano gan Cerys Wyn Davies, Elinor White, Petra Bennett, Elin Prys Davies, Siân Wyn Davies, Siân Booker, Carolyn Davies ac Eifion Davies. Bu Dyfrig Jones yn canu'r ffidil, Hugh Jones yn dangos ei feistrolaeth ar yr utgorn, Mererid Davies a Mari Edwards yn perfformio deuawd i'r cello ac Einion Dafydd yn canu unawd ar y clarinet. Canodd Mr Arwel George, aelod o staff yr ysgol, unawd allan o "Il Seraglio". Cafwyd perfformiadau graenus gan Gerddorfa'r Ysgol, Y Band Pres, Grŵp Offerynnau Taro, a Chôr yr Ysgol i gwblhau'r rhan gyntaf. Hugh Jones a Peter Spriggs gyflwynodd y rhan hon o'r noson yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r safon uchel a gyrhaeddwyd gan y disgyblion ifainc hyn yn adlewyrchu'r brwdfrydedd sydd yn yr ysgol am amryw o weithgareddau cerddorol, ac hefyd yn ffrwyth gwaith dygn gan y plant a'u hathrawon.

Parhawyd gyda gwaith Mozart yn yr ail hanner: cyflwyniad o "Papageno", addasiad o'r opera "The Magic Flute", wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg gan Mrs Mary Crandon. Pleser mawr i'r gynulleidfa oedd gweld gwisgoedd lliwgar, tlws y merched a dillad caethweision y bechgyn, a'r plant wrth eu bodd wrth berfformio. Cyfrannodd y setiau a'r goleuadau yn helaeth i greu awyrgylch iawn i'r actorion. Dylan Jones (Papageno), Iona Jones (Papagena) a Russell Williams (Monostatos) gymerodd y prif rannau, ac roedd yn wych gweld disgyblion ifainc fel rhain yn actio a chanu mor dda.



*Iona Jones* PAPAGENA


10am 8fed Tachwedd

FFAIR NADOLIG

Ysgol Feithrin Llandaf

Festri Capel Bethel

(Tu cefn i Woolworth, Queen Street)


# *Mae Lleisiau...*

Pedwar llais a glywodd cynulleidfa fawr a ddaeth ynghyd i Theatr y Sherman nos Sul, Hydref 12, i wrando ar raglen deyrnged i Syr T.H. Parry-Williams a drefnwyd gan Gymdeithas Lenyddol Caerdydd.

Cychwynnwyd gyda llais swynol Mair Robins yn canu ei dehongliad o Beth yw'r haf i mi? - y geiriau gan Syr Thomas a Lady Parry-Williams. Yna, daeth y Dr Meredydd Evans, a oedd yn gyfrifol am lunio dolenni cyswllt y rhaglen i fwrw i mewn stôr atgofion am y gŵr. Adrodd darnau o'i weithiau, yn gerddi ac ysgrifau oedd gwaith Guto Roberts o Ros-lan, a gwnaeth hynny gyda'i sglein arferol. Roedd y cynhyrchydd, Mr Wynne Lloyd, wedi defnyddio llawer o'r ffilm a wnaeth ar gyfer Adran Ysgolion y BBC ar gyfer y pedwerydd llais, sef llais Syr T.H. Parry-Williams ei hun yn sylwi ar y fro o'i gwmpas ac yn adrodd ychydig o'i ddarnau cyfarwydd.

Symudwyd yn ddeheuig yn ôl ac ymlaen o lais i lais nes i werthfawrogiad diddorol a gafaelgar dyfu - dehongliad a oedd wrth fodd y gynulleidfa. Cadwyd at y llwybrau cyfarwydd, yn bennaf, efallai, am fod y ffilm yn gofyn am hynny, a chan i'r Dr Meredydd Evans awgrymu ar y dechrau fod ganddo gynifer o "gerrig" i'w casglu fel na wyddai'n iawn ble i ddechrau, byddai nifer ohonom wedi caru cael mwy na'r ychydig dros y tri chwarter awr a gafwyd. Ond mae gofyn am ragor bob amser yn awgrymu i'r pryd fod yn nodedig o flasus.

Ac fe fydd yna ragor yn nes ymlaen. Nodir ar raglen y Gymdeithas y bydd T.J. Morgan yn dod i Gaerdydd ar Dachwedd 12fed i sôn am ryddiaith T.H. Parry-Williams - ac ychydig yn ddiweddarach, ar Ragfyr 10fed fe fydd Gwyn Erfyl yn ymdrin â'i farddoniaeth.

## Tristwch

Dau nodyn trist. Yn ystod y mis bu farw Mr W.H. Morgan, diacon ac ymddiriedolwr yr eglwys a Mrs L.B. Davies, un o aelodau hynaf y Tabernacl.


MOUNT SORREL

HEOL PORTHCERI
Y BARRI, DE MORGANNWG ☎ 3600

** A.A. R.A.C.
GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 Gyda ystafelloedd ymolchi preifat.) Teledu, Radio etc. ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU
PRIODASAU
CINIO A DAWNS

GWYLIAU GAEAF £11.50 + T.G. am benwythnos

Cinio dydd Sul 12.30 - 2.00p.m.

Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus

# CLWB TŶ'R CYMRY

Wrth i'r rhifyn hwn o'r "Dinesydd" fynd i'r wasg, mae aelodau'r Clwb hanner ffordd trwy gwrs o fyfyrdod ar y thema "Cymru Gyfoes". Cychwynnwyd y rhaglen gyda chyfres swmpus o chwe darlith a drefnwyd gan Dr Meredydd Evans, ar ran Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol.

Hyd yn hyn buwyd yn archwilio tair gwedd, sef y Strwythur Cymdeithasol, Llywodraeth Leol a Sefyllfa'r Iaith, dan arweiniad Mr Iorwerth Morgan, M.Ed., Y Cynghorydd Emyr Currie Jones, Ll.B. a'r Br. Ffred Ffransis, yn eu tro. Arweinir y grŵp yng ngweddill ei astudiaeth gan Yr Athro Hywel Moseley, Mr Gethin Williams a Mr Dai Francis, Ysgrifennydd rhanbarth Cymru o Undeb y Glowyr.

Cyfrifoldeb newydd yr ymgymer y Clwb ag ef eleni yw cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y boblogaeth gynyddol a feddiannodd y Gymraeg yn hwyrach yn eu bywydau na'r rhelyw o aelodau'r Clwb. Rhoddir croeso arbennig i'r Dysgwyr hynny ar Nos Lun, 17 Tachwedd, gyda Mr Bill Raybould yn Westai Arbennig a threfnir Noson Goffi arall, mwy anffurfiol iddynt ar Chwefror 2il. Edrychir ymlaen at noson arbennig iawn ar 26 Ionawr pan fydd Mr Bernard Evans yn trafod drama Mr Saunders Lewis, "Blodeuwedd", gyda disgyblion chweched dosbarth ysgolion y ddinas.

## O'r Tabernacl

Sul arall i'w gofio oedd Sul cyntaf mis Hydref. Cwrdd plant yn y bore a'r plant yn dod a rhoddion arian mewn bagiau bach lliwgar ar ffurf ffrwyth neu flodyn i lunio'r gair DIOLCH ar fwrdd mawr yn y pulpud. Addurnwyd y capel yn hyfryd gan rai o'r chwiorydd. Yn y nos, cafwyd cynhaeaf y Tabernacl sef bedydd tair o ferched yr Ysgol Sul: Roslyn Barraby, Jane Roberts a Llinos Williams. Yn ein cyfres o gyrddau diolchgarwch cafwyd gwasanaeth hyfryd nos Fawrth a swper bara a chaws. Yn ystod y noson trosglwyddodd y Gweinidog siec o £1,007 ar ran yr eglwys i Mr T.B. Morris i'r ymgyrch o Gymorth Cristnogol.

*Bydd Gilbert Ruddock yn cynnal cwrs o ddeg darlith ar gywyddau Sion Cent yn ystod y gaeaf. Cynhelir y darlithiau bod nos Iau am 7.15p.m. yn Adeilad y Celfyddydau, Coleg y Brifysgol o nos Iau Hydref 30ain ymlaen. Croeso i bawb.*


**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

*CARDIAU- Cyfarch a Nadolig*

Cyfres o bedwar paentiad yn darlunio gwahanol ardaloedd o Gymru, pob un mewn lliw ac o ansawdd da.

1. David Carpinnini - Dyfed-Powys
2. Peter Prendergast - Gogledd Cymru
3. Tony Steele-Morgan - De Cymru
4. Ronald Carlson - Gwent

*CALENDRAU*

*CARDIAU POST*

*POSTERI*

*DARLLENIADAU Awr ginio*

Bryan Martin Davies, Dydd Mawrth Tachwedd 4ydd
Glyn Jones, Dydd Iau Tachwedd 20 fed
1.00 - 2.00p.m.


# Dramau S.L.
## ar y teledu

**Ym mis Gorffennaf fe dreuliodd George Owen, cynhyrchydd drama gyda B.B.C. Cymru, dair wythnos yn rihyrsio a recordio Merch Gwern Hywel gan Saunders Lewis. Yn ddiweddar bu Michael Povey yn sgwrsio ag ef yn ei swyddfa yn Llandaf.**

MP Sawl drama o eiddo Mr Lewis ydach chi wedi gweithio arnyn nhw - a pha un oedd y gynta?

*GO O....dwi wedi gweithio ar bump neu chwech mae'n siwr. Y gynta, dwi'n meddwl, oedd cyfeithiad Saesneg o Siwan......*

MP Ond nid fel cynhyrchydd bryd hynny wrth reswm?

*GO Na....gweithio ar y llawr oeddwn i fel cynorthwywr. Hwnnw'n gynhyrchiad da iawn, efo Sian Phillips, Clifford Evans, Peter O'Toole. Mae'r recordiad hwnnw yn dal ar gael....yr unig un o'i fath sy' ar ôl o'r cyfnod, ac mae pyteidia ohono fo'n cael eu dangos o bryd i'w gilydd.*

MP Pa argraff o'r cynhyrchiad sy'n dal yn eich cof chi hyd heddiw? Unrhyw beth cyffrous er engraifft?

*GO Wel....mi oedd 'na ddipyn o wrthdaro - hynny yw, gwrthdaro proffesiynol - rhwng Clifford Evans a Peter O'Toole. Roedd Clifford Evans wrth gwrs yn actor profiadol dros ben - ac yn actor oedd yn siarad Cymraeg. Peter O'Toole yn ddyn cymharol ifanc bryd hynny - ac roedd y sefyllfa rhwng y ddau yn danbaid ar fwy nag un achlysur. Wnai byth anghofio y ddau yma - y ddau yr un mor ogoneddus yn 'i ffordd 'i hunan. Y gŵr ifanc yn pryfocio'r gŵr hŷn.... fel mae'r sefyllfa yn y ddrama wrth gwrs!*

MP Fel cynhyrchydd, pa elfen o'i ddramau o sy'n rhoi mwya o bleser i chi?

*GO O....yn ddi-os 'i gynildeb o. Y ffordd mae o'n medru cywasgu gymaint o emosiwn i fewn i un olygfa neu hyd yn oed i ran o olygfa. Dwi wedi dysgu o'r diwedd na fedrwch chi ddim diystyru dim mewn sgript gan Saunders Lewis. Yn llythrennol mae bob atalnod - bob 'full-stop' yn bwysig.*

MP Fyw ichi newid mewn unryw ffordd......

*GO Os ydi o'n rhoi saib mae o hyd yn oed yn amseru 'i saib. Am wn i, yr agoriad llygad mwya gewch chi yw cael y fraint o glywed Saunders Lewis yn darllen 'i waith 'i hun. Dwi wedi treulio hydoedd ar adega dros ryw ran arbennig o ddeialog a methu deall pam 'i fod o wedi 'sgrifennu o'r ffordd arbennig hynny; ond ichi glwad o yn 'i ddarllen o, mae o mor eglur.*

MP Mae 'na gyfnod o rai blynyddoedd wedi mynd heibio bellach ers pan fuoch chi'n gweithio ar Brad....ym mha ffordd mae 'i arddull o wedi newid yn eich tyb chi....os ydi o wedi newid o gwbwl?

*GO Dwi ddim yn gwy bod os fedrwch chi ddeud fod 'i arddull o wedi newid... ...un peth neu ddau falla mae o'n ymddiddori ynddyn nhw yn 'i ddramau, sef effaith dyn ar ' gymdeithas, neu i'w rhoi hi fel arall, effaith cymdeithas neu ryw agwedd o'r gymdeithas honno ar y dyn. Effaith Hitler ar Ewrop......ar y byd i gyd wrth gwrs. Effaith Comiwnyddiaeth...... effaith crefydd. Ond yr un pryd, mae o wedi ymddiddori cymaint, nid yn unig yn effaith y dylwanada 'ma megis Comiwnyddiaeth neu Natsiaeth, ond mae o'n dwad â fo lawr i'r dyn 'i hun......*

MP Felly, nid fod 'i arddull o wedi newid gymint â hynny, ond fod sefyllfaoedd wedi newid, a'i fod o'n 'sgrifennu am sefyllfaoedd gwahanol....

*GO Mae o'n 'sgrifennu, ydi, am destynna gwahanol, ond yr un yn y bon ydi'r broblem......a'r un ydi 'i ddadl o drwy'r adag....*

MP Mae actoresa yn deud

yn amal iawn y byddai'n sobor arnyn nhw heblaw am Saunders Lewis, a does 'na ddim dwywaith 'i fod o wedi 'sgrifennu dramau bendigedig ar gyfer merchaid. Fyddai'n deg deud fod yn well ganddo 'sgrifennu ar gyfer merchaid?

GO *Wel....fyddai'n sylwi pan ddaw o fewn i rihyrsal fod y merchaid yn dotio ato fo! Mae gynno fo ryw swyn arbennig. Mi faswn i'n derbyn fod merchaid yn gymaint o arwresa yn 'i ddramau o......ond i fod yn deg....tu ôl i bob merch mae 'na ddyn. Fyddai Esther er engraifft ddim yn arwres onibai am Mordecai. Fydda Iris ddim wedi ymddangos fel ag y mae hi onibai am Morc....*

MP Siwan a Llywelyn wrth gwrs......

GO *Wrth gwrs.*

MP Yn eich tyb chi pa un ydi 'i ddrama fwya o?

GO *Mae'n demtasiwn i ddeud Esther oherwydd mae rhywun yn gweld Cymru drwyddi....ond dwi'n credu fel drama mi faswn i'n deud Blodeuwedd. Mae'r canfas mor eang. Dim ots o ba gyfeiriad yr edrychwch chi arni, mae hon yn gampwaith, yn gelfyddyd....ond, y farddoniaeth orau yn sicr i mi fyddai Siwan. Rywsut 'da chi'n medru 'i dysgu hi wrth 'i darllen hi. Mae'r farddoniaeth mor gyfareddol mae hi'n glynnu wrth y cof...*

MP Dwi'n gwybod i chi weithio'n glos efo Saunders Lewis ar bob cynhyrchiad. Wnaethoch chi anghytuno yn danbaid ar unryw achlysur?


GO *Wn i ddim am danbaid... mae'n anodd iawn anghytuno yn danbaid efo fo! Ond dwi'n credu mae un o'r petha elfennol ddaru ni anghytuno arno fo oedd y ddrama gomisiwn gynta i mi neud o'i waith o, sef Branwen. Roeddwn i'n gweld y cymeriada 'na - Bran a Matholwch - fel rhyw fath o dduwia mytholegol....braidd yn debyg i'r Samurai....a 'roeddwn i isio ymdrin ar peth ar y 'scale' yna. Roeddwn i isio 'u gneud nhw'n fwy....yn llythrennol gorfforol fwy. Ond roedd o'n dal allan: "Na na....mae Bran 'r'un fath â'r dyn drws nesa.*

MP A fo aeth â'r maen i'r wal?

GO *Fo aeth â'r maen i'r wal trwy ganolbwyntio ar Bran y dyn....neu Efnisien y dyn. Roedd 'na gymaint yn fwy yn y cymeriad fel yr oedd o yn y diwadd yn dod yn Dduw.*

MP I chi'n bersonol, pa agwedd o'i ddramau o sy' fwya diddorol....y sefyllfa, sy' bron yn ddieithriad yn boliticaidd, neu'r cymeriadau sy'n rhan o'r sefyllfa honno?

GO *Fel deudis i, mae'n anodd iawn datgysylltu un oddi wrth y llall. Dwi wedi gofyn iddo fo fwy nag unwaith pam 'i fod o'n llyffetheirio 'i hun....yn gneud 'i waith yn llawer anos trwy gymryd sefyllfa real a chymeriadau real. Cymerwch chi Brad. Pa ddramodydd fyddai'n 'sgrifennu am ddigwyddiad mae pawb yn gwybod amdano fo. A phawb hefyd yn gwybod be' ddigwyddodd yn y diwedd. Ond ryw fath o gefndir oedd y sefyllfa yna iddo fo i ddrama ddynol iawn. Sef y berthynas yma rhwng Hoffecker ar Iarlles, ar gwrthdaro rhyngddi hi ag Albrecht...*




MP Felly y cymeriada sy' bwysica yn y pendraw beth bynnag ydi'r sefyllfa....

GO *O ia. Mi wneith bwynt weithia am olygfa neu'i gilydd...."Mae gofyn actio graenus yn fan hon neu lwyddith hi ddim." Fe allech feddwl nad oes dim byd yn y deialog fel y cyfryw... ond mae o 'i gyd yna ond i chi chwilio amdano fo....*

MP Pe bydd ech chi'n cael y cyfle, oes 'na unryw un o'i ddramau o yr hoffech chi'i gneud eto. A fasa chi'n rhoi pwyslais gwahanol?

GO *Wel wrth gwrs mi aethon ni drwy gyfnod o weithio mewn du a gwyn. Mi hoffwn i wneud Brad eto....mewn lliw. Ond yn hytrach nag ail-wneud un o'i ddramau o, dwi'n credu, petawn i'n cael y cyfle, yr hoffwn i neud Blodeuwedd. Mae o'n un o'r petha 'ma sy'n fy meddwl i rownd rîl. Ond na, falla na fedra'i gael yr union gast ydw i isio... amgylchiada ddim cweit yn iawn....ond mi hoffwn fynd ar ôl Blodeuwedd. Ryw ddydd.*



Golygfa o "Merch Gwern Hywel" a deledir yn y Flwyddyn Newydd

(Llun BBC Cymru)

# Rhaglenni Newydd i blant Cymru o'r Ganolfan Deledu Caerdydd.

DYDD MAWRTH

Fyny Fanna 4.25 pm i'r plant lleiaf

DYDD MERCHER

Rhifeddodau 4.25p.m. i blant rhwng 6-11 oed

DYDD IAU

Ble yn y byd......? i blant rhwng 11-14 oed

DYDD GWENER

Stesion Cantamil Yr hen ffefryn i blant ysgolion cynradd.

*Gwybodaeth, sialens a difyrwch gan*

HTV CYMRU WALES




Lisabeth Miles fel Ann Griffiths yn "Byd o Amser" a gyflwynir gan Gwmni Theatr Cymru yn Theatr Sherman, Caerdydd nos Sul, Tachwedd 9fed am 7.30pm.

*Llun Cwmni Theatr Cymru*

# NEWYDDION CWM RHYMNI

## CYMDEITHAS GYMRAEG CAERFFILI

Roedd yn dipyn o sioc i aelodau Cymdeithas Gymraeg Caerffili i ddarganfod nad Alun Evans, wedi'r cwbl, oedd yn cynnal ail gyfarfod y tymor. Ond brysiodd y Llywydd, y Parchedig Densil John, i esbonio fod llythyr Alun wedi mynd ar goll rhywle rhwng Canolfan y BBC a Chaerffili ac, ar y funud olaf, roedd W.J. Jones wedi cytuno i draddodi darlith yn ei le. Roedd y gynulleidfa niferus a oedd wedi ymgynnull yng Nghanolfan y Twyn yn bur siomedig ar y cychwyn ond fe'u swynwyd yn fuan gan ddarlith enwog W.J. ar hynt a helynt y system drydan yn ardal Ysbyty Ystwyth cyn dyfodiad y Bwrdd Trydan. Braf hefyd oedd clywed gan y Llywydd fod Alun Evans wedi cytuno i ddod i'r Gymdeithas ar Fawrth 22, 1976.

## CWM YR ABER

Aeth torf o dros drigain o aelodau Cymdeithas Gymraeg Cwm yr Aber ar daith flynyddol y Gymdeithas eleni i ymweld â phentref Llacharn, bro Dylan Thomas, ac i gerdded (y mwyafrif ohonynt, beth bynnag!) dros filltir i fwynhau'r amgueddfa ddiddorol sydd erbyn hyn wedi'i sefydlu yn hen gartre'r bardd. Er gwaethaf y tywydd gwlyb roedd hi'n daith lwyddiannus iawn a mynegwy gwerthfawrogiad i'r ysgrifenyddes, Mrs Rita Jones, am ei gwaith trwyadl gyda'r trefniadau.

Yng nghyfarfod cynta'r tymor manteisiodd y Gymdeithas ar dalent lleol gyda noson o eitemau ar lafar ac ar gân yn nwylo Mary Parry, Sian Parry a Moi Parri - y tri yn athrawon yn Ysgol Gymraeg Senghennydd.

## RHIENI CAERFFILI

Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Rieni Ysgol Gymraeg Caerffili etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd, Mr Coombes; Ysgrifennydd, Mrs Olwen Rees; Trysorydd, Mr Davies.

## CYLCH DYSGWYR

Cynhaliwyd noson i'r dysgwyr yn ddiweddar yn festri Tonyfelin, Caerffili. Yng nghwmni nifer o Gymry Cymraeg y cylch cafodd y dysgwyr gyfle i ymgomio yn Gymraeg a mwynhau gêmau badminton a tenis bwrdd. Ar ddiwedd y noson etholwyd pwyllgor yn cynnwys Alan Howell, John Davies, Eleri Betts, Susan Lewis a Derec Harper i drefnu'r cyfarfodydd nesaf. Bydd y Cylch yn cyfarfod bob yn ail nos Iau am 8.30p.m. yn y festri gan ddechrau ar Hydref 23.

## WLPAN CAERFFILI

Da yw dweud bod aelodau Wlpan Caerffili yn mynychu'r cwrs yn gyson. Ar ôl mis caled o waith maent yn dangos cynnydd sylweddol yn eu medr i siarad Cymraeg. Mae lle i gredu bod eu biliau ffôn wedi dyblu'n ddiweddar! Mae'r aelodau'n ceisio gwella'u Cymraeg a magu hyder yn yr iaith drwy ffonio a chynnal sgwrs â nifer o Gymry Cymraeg yng Nghaerffili a'r cylch.

## RHIENI RHYMNI

Prysurdeb yw'r gair sy'n nodweddu Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Rhymni y tymor hwn. Maent eisoes wedi codi dros £60 mewn Ffair Sborion er budd yr Ysgol Feithrin leol ac wedi cynnal cyngerdd lwyddiannus iawn gan Gantorion Eluned o Lyn Ebwy. Diddorol oedd deall mai tadcu Mrs Eluned Williams, arweinydd y côr, a gyfansoddodd yr anthem enwog - *Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn.* Llywyddwyd y noson gan Mrs Heulwen Williams, prifathrawes yr ysgol, ac aeth yr elw eto i'r Ysgol Feithrin.

## SALWCH

Tristwch mawr i bawb sy'n adnabod y Parchedig Gwilym Morris, Caerffili, oedd clywed am ei waeledd a'i drawodd yn sydyn yn ddiweddar ar ganol oedfa bore. Diolchwn y gallwn erbyn hyn ymfalchio yn y ffaith ei fod yn cryfhau'n araf a dymunwn iddo adferiad buan a llwyr.

# Y Das Aur

Dywedir wrthym fod llawer o ddiwylliant Cymru wedi ei feithrin mewn ysguboriau, ond prin y gellid bod erioed wedi cael noson fwy llwyddiannus na honno a gafwyd yn ysgubor Cwm Pennant, Dinas Powys, ddiwedd Medi.

Y rhai a oedd yn gyfrifol am ein gwahodd oedd Mr a Mrs Ifor Symmonds, perchennog y fferm, ac roedd y ddau wedi gofalu fod yr ysgubor wedi cael ei harddu ar ein cyfer. Roedd lle i bawb eistedd ar fyrnau ac roedd wagenni yn gweithredu fel llwyfan i'r artistiaid. Gyda chymorth parod Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys, roedd y teulu wedi darparu lluniaeth amheuthun ar ein cyfer, yn gig, yn fara ac ymenyn a chaws a tharten fwyar a tharten afalau a ffrwythau ac ati. Ac roedd yno sawl ffordd i dorri syched.

Yn goron i'r cyfan, roedd Dr Meredydd Evans yn arwain tîm o artistiaid profiadol i'n diddori ac roedd graen ar gyfraniad pawb. Sicrhawyd elw o £323 ar gyfer cronfa'r eisteddfod genedlaethol yng Nghaerdydd. (Mr Symmonds yw cadeirydd pwyllgor cyllid Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yn Y Barri, a than ei lywyddiaeth ef, gall Yr Urdd edrych ymlaen at sawl ffordd ddiddorol o godi cyllid.)

## ADRAN BENTRE'R URDD' RHIWBEINA

Mae'r Adran wedi ail-ddechrau yn Rhiwbeina ar ôl gwyliau'r Haf a daw tua phump ar hugain o blant ynghyd bob nos Lun yn Neuadd y Clwb Adloniant dan arweiniad Bob Roberts, Mair Owen a Gwilym Roberts i fwynhau amrywiaeth o chwareuon a chystadleuthau. Mae'r Adran yma wedi bod mewn bodolaeth ers pum mlynedd bellach.

## TUA'R GORLLEWIN

Ddydd Gwener, Hydref 24, yn gynnar ar ôl cinio bydd dwsin o gerddwyr yn cychwyn o Ysgol Rhydfelen a'u hwynebau tua'r Gorllewin yn ôl y cyngor a gafodd y gŵr ifanc hwnnw gynt; chwe athro a chwe disgybl, dwsin fel cynt, yn gadael rhwydau'r ysgol ac yn 'i chychwyn hi ar droed gan obeithio, bron gant o filltiroedd a phedwar diwrnod yn ddiweddarach, y byddan nhw'n cyrraedd Tresaith ar arfordir Ceredigion. Ac i ba beth y bu'r golled......?

I rai rhieni, ac i holl blant ysgol Rhydfelen mae cliw yn yr enw Tresaith. Oherwydd ers nifer o flynyddoedd bellach mi fu disgyblion blwyddyn gyntaf yr ysgol yn cyrchu tuag yno yn 'u dosbarthiadau i dreulio wythnos yn nawseiddio'r Dyfed Gymraeg gan aros yn yr hen gapel y wedi'i droi'n ganolfan gwyliau. A rhai ohonyn nhw, am y tro cyntaf yn 'u bywydau yn deffro yn Gymraeg, yn byw yn feunyddiol yn Gymraeg yn mynd i gysgu'r nos yn Gymraeg.

Iawn, medde chi, ond y cerdded? Pam y byddwn ni'n gofidio rhag i'r dwsin fethu â dychwelyd i'r ysgol ar ôl hanner tymor gan flinder a diffyg esgidiau? Y gwir yw fod trai dychrynllyd ar nawdd yr Awdurdod Addysg i'r ymweliadau cwbl angenrheidiol hyn, cyrsiau na chaiff fethu gan y sychder ariannol. A phenderfyniad fel hyn a amlygir yn ymdrech y dwsin hyn, ac yn ymdrech llysoedd yr ysgol, athrawon a chyn-athrawon a changhennau'r Gymdeithas Rhieni i'w noddi hyd at leiafswm, fe ddisgwylir, o ddau canpunt yr un. Y gobaith yw mai lleiafswm yw hyn, ac efallai y ceir rhyddid i ledu'r apêl yn sgil adrodd yr hanes hwn. Hanner gair......

Os ydych yn rhieni, neu wedi bod yn rhieni â disgyblion yn yr ysgol, gellwch gysylltu â sgrifennydd lleol eich Cymdeithas (Mrs Avril Lewis?) Glyn Rhosyn, 3 Derwen Rd., Cyncoed, Caerdydd, neu gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol (â'r Parchedig Gareth Reynolds). Ac y mae'r gair "cysylltu" yn y fan hyn yn drymlwythog o ystyr! Bydd yn esgus hefyd wrth gwrs i rai rhieni i fynd â phlant am dro i'r Gorllewin i roi hwb ymlaen i rai o'r cerddwyr yn 'u hymdrech i gyrraedd gwlad "y machlud mwyn".

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# CRONFA'R MIL O FILOEDD

## Tachwedd 7 : HIL A HWYL CASTELL

(Noson yng nghwmni parti penillion Caerydd, pedwarawd y Wenallt a thelyn Mona Meirion)

Yng Nghastell CAERDYDD : : Mynediad : £1

Dechrau am : : 7.30p.m.

Tocynnau gan : Miss Nan Jones
Mrs Buddug Thomas
Mrs Moira Owen

## Tachwedd 15 : BACK TO SQUARE ONE

(Noson yng nghwmni Theatr Caricatûr enwg Miss Jane Phillips. Cyfle i'r Cymraeg a'r di gymraeg ddod ynghyd i fwynhau rhyfeddodau byd y pypedau)

Yn theatr Reardon Smith : : Mynediad : Oedolion 60c Plant 30c
Partion o ugain a mwy = 20c yr un

Tocynna : Gwyn Jones
Ffôn - Gwaith 756701
Cartref 759353

## Tachwedd30 : MÔR O GÂN

(Noson yng nghwmni Ann Griffiths a'i thelyn; côr penillion Rhydfelen a Chôr Iddewig Zimriayah)

Yn theatr y Sherman

Mynediad : £1

Tocynnau gan : Mr Merfyn Griffiths
(Hefyd yn Theatr y Sherman)

Dechrau am : : 8.00p.m.

**Rydan ni'n ceisio hel arian ar gyfer ein dyfodol.**

**Y broblem? Cael hyd i le diogel i ddodi'r arian.**

**Waeth heb na'i gladdu yn yr ardd gefn - fe fydd y ci wedi dod o hyd iddo.**


**Waeth heb na'i guddio o dan y llawr - fe fydd rhywun wedi ei ddwyn.**

**Yr ateb? Cyfrif Cadw yn y Midland.**

**Mae'n cynilion yn tyfu; d'oes dim temtasiwn i'w gwario; ac mae nhw'n ennill llogau i ni.**

Os am hel at ddiwrnod glawog (neu at wyliau haf hyd yn oed) galwch yn y gangen agosaf o'r Midland – yn fuan.

**Banc Midland**



# MERCHED DA!

A hithau'n Flwyddyn Ryngwladol y Merched, addas a dweud y lleiaf oedd testun darlith unigryw Mr Hywel Teifi Edwards yng nghyfarfod agoriadol Merched y Wawr ar Fedi'r 17eg.

"Rwy'n hoffi merched", meddai'r siaradwr wrth gyflwyno'i destun - wel, doedd ganddo fawr o ddewis a'r ganolfan dan ei sang y noson honno i wrando arno'n traethu ar *Y Ferch Rinweddol.* Ein harwain ar unwaith at gnewyllyn y ddarlith sef ei ymdriniaeth fachog â sylwedd dau draethawd buddugol o steddfodau'r ganrif ddiwethaf, y naill yn waith gweinidog a'r llall yn ffrwyth myfrdod rhyw Mrs Richards o ardal Bangor. Diddorol tu hwnt oedd clywed ymateb y ddau lais hyn o'r gorffennol i destun sy'n dal i fod yn bwnc llosg ganrif yn ddiweddarach, sef beth yn union yw swydd merch yn ein cymdeithas? Yn ddistaw bach roedd yna un gwrandawr o leiaf yn ymfalchio yng ngrym dadleuon Mrs Richards a'i dull goleuedig o drin ei thestun - fe fyddai hon yn reit siwr ar flaen y gad eleni!

Pam tybed na chafwyd unrhyw gystadleuaeth debyg yng Nghricieth? Gormod o ddynion ar y pwyllgorau, sgwn i???

Ehangwyd maes y ddarlith gyda sylwadau treiddgar y darlithydd ar ymdriniaeth llenorion Cymru â'r ferch mewn rhyddiaith a barddoniaeth, a chawsom gip o'r newydd ar bwysigrwydd cerdd W.J. Gruffydd i Gwladys Ddu. Ac er mai rhwng difri a digri y cyflwynodd Mr Edwards ei syniadau, fel y dywedodd Mrs Alice Watkin Powell wrth ddiolch iddo, roedd ei ffordd o draethu yn cuddio ymchwil dreiddgar a diwylliant a darllen eang iawn.

Wel, oes oedd e'n cyfaddef ei fod yn hoff o ferched, teg yw cydnabod fod Merched y Wawr Caerdydd un ac oll o dan ei gyfaredd yntau y noson honno. Noson i'w chofio a'i thrysori.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar nawr at weddill cyfarfodydd y tymor hwn - dewch atom os nad ydych eisoes yn aelod. Fe gwrddwn yn gwmni llawen o dan ofal ein llywydd Mrs Ray Evans y nos Fawrth gyntaf o bob mis yng Nghanolfan yr Urdd am 7.30p.m. (Cyfarfod nesaf, Tachwedd 4ydd). A chofiwch am y Noson Fawr yng Nghastell Caerdydd, Tachwedd 7fed, pan fydd croeso i.r gŵyr a phawb sy'n dymuno ddod i glywed ein rhaglen nodwedd *Hil a Hwyl y Castell,* a gwrando ar leisiau dihafal Parti Penillion Caerdydd, Pedwarawd y Wenallt a thannau telyn Mona Meirion. Hwyrach y cewch rywbeth i iro'ch llwnc hefyd - a hynny i gyd a £1, yr elw at Gronfa'r Mil o Filoedd ond y mwynhad i gyd yn eiddo i chi.

# O'r Ganolfan

Ydych chi wedi cadw gwenyn erioed? Os ydych chi'n ffansio'r syniad, a blys arnoch am brofi prysurdeb a bwrlwm y cwch, ond heb y drafferth o drin y gwenyn, yna galwch yng Nghanolfan yr Urdd bob nos Lun. Tua hanner awr wedi chwech, meddiannir yr adeilad gan wenyn brwd yr Uwch Adran ac ymhen eiliadau, mae sŵn eu gweithgareddau yn adleisio drwy'r adeilad (fel y gŵyr y dosbarthiadau Cymraeg!) Clywir swn cnocio hoelion o'r fan hyn, nodau gitar o'r fan acw, drama o'r neuadd a bysedd prysur yn trin clai yn ein hystafell grochenwaith.

Dyma'r canlyniad i'r cyntaf o'r grwpiau tair wythnos o weithgareddau a drefnwyd y gaeaf hwn. Oherwydd y llwyddiant, rydym yn ffyddiog y caiff yr ail gyfres yr un ymateb. Diolch yn fawr i Eirlys, Sian, Dwynwen a Gareth Glyn am arwain y grwpiau.

Dyma'r amserlen am ail hanner y tymor:

Tachwedd 3 - Twmpath a Chawl

Tachwedd 10, 17, 24 - Grwpiau diddordeb: crochenwaith, ffotograffiaeth, coginio, drama a mwy!

Rhagfyr 1 - Ymweld ag Argraffdy ap Dafydd

Rhagfyr 8 - Argraffu cardiau Nadolig yn argraffdy'r ganolfan.

Rhagfyr 15 - DISGO 'DOLIG.

## Siop

Mae siop y Ganolfan yn cario cyflenwad llawn o nwyddau'r Urdd, a llyfrau ar gyfer dysgwyr a'r Cymry Cymraeg. Galwch i mewn os ydych yn chwilio bathodynnau, posteri, Calendr yr Urdd, recordiau Cymraeg neu lyfrau o bob math.

Mae'r CABAN COFFI ar agor bob nos, wrth gwrs.

## Yr Aelwyd

Mae'r Aelwyd wedi trefnu un disgo bob mis y tymor hwn. Llwyddiant ysgubol fu dawns agoriadol y tymor, gyda 'Josgin', grwp a gododd o Aelwyd Caerdydd, yn lliwio'r noson. Edrychwn ymlaen at ymweliad 'Josgin' eto yn 'Dawns 'Dolig'. Fe fydd y disgo nesaf ar Dachwedd 21 (nos Wener).

Rhwng nawr a'r Nadolig fe drefnir nosweithiau Ddawnsio Gwerin, ffilmiau a chystadleuthau chwaraeon.


*Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

## *Amgueddfa Werin Cymru*

Castell Sain Ffagan a'i erddi
Adeiladau o bob rhan o Gymru wedi eu hailgyfodi
Crefftwyr yn ymarfer eu crefftau traddodiadol
Oriel Ddiwylliant Materol yn dangos agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru
Oriel Amaethyddiaeth Newydd
Arddangosfeydd arbennig o bryd i'w gilydd

*Datblygiadau Newydd*

Oriel Gerbydau Amaethyddol
Oriel Wisgoedd
"Melin Pompren" - melin flawd o Gross Inn, Dyfed.

*Cyfleusterau*

Maes parcio helaeth Ystafell fwyta
Llawlyfr (15c), Llyfrynnau arbennig, Llyfrau a Chardiau ar werth
Bws Rhif 32 o Orsaf Fysiau Cyffredinol Caerdydd ar yr awr

*Ar Agor*

Dyddiau'r Wythnos 10 - 5 Hydref - Mawrth
10 - 6 Ebrill, Mai, Mehefin, Medi
10 - 7 Gorffennaf, Awst a gwyliau cyhoeddus
Suliau 2.30 - 5 Hydref - Mawrth
2.30 - 7 Ebrill - Medi
Ar gau Noswyl Nadolig Dydd Nadolig Dygwyl Steffan a Dydd Calan

*Mynediad*

Oedolion 10c
Plant dan 16 oed 5c
Pensiynwyr am ddim
Mynediad am ddim hefyd i bartion ysgol a drefnwyd ymlaen llaw a than oruchwyliaeth

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
Ffôn Caerdydd (0222) 561357


## Staff newydd yn yr Amgueddfa Werin

Ar Hydref 1, ymunodd dau aelod newydd â staff yr Amgueddfa Werin.

Hen ddisgybl o Ysgol Gymraeg y Barri yw Dr Gwenllian Awbery, Is Geidwad yn yr Adran Traddodiadau Llafar a Thafodieithoedd. Wedi graddio mewn Ieithoedd Modern ym Mhrifysgol Caergrawnt, parhaodd eu hastudiaethau yno gan ddewis "Y goddefol yn y Gymraeg" fel maes ei hymchwil ar gyfer ei doethuriaeth. Cyn ymuno â staff yr Amgueddfa Werin yr oedd yn ddarlithydd yn Adran Seineg Prifysgol Leeds. Y mae'n adnabyddus i lawer o gylch y Barri fel wyres i'r diweddar Stan Awbery, a oedd yn aelod seneddol dros un o etholaethau Bryste.

Brodor o Fangor yw John Owen Hughes, sy'n ymchwilydd yn yr Adran Traddodiadau Llafar a Thafodieithoedd. Wedi graddio yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Bangor, bu'n ymchwilio i storiau gwerin Ardal Eryri ar gyfer y radd o M.A. Maes arbennig Mr Hughes yn Sain Ffagan fydd "Geirfau Crefft".

## AGORIR Y DRWS......

**Mae Apêl Cronfa'r Mil o filoedd wedi esgor ar o leiaf un syniad sy'n haeddu cael parhad wedi i'r gweithgareddau ddod i ben. Mae pob eglwys a sefydliadau Cymraeg eraill wedi cael gwahoddiad i gynhyrchu drama un act ar gyfer gŵyl ddrama a fydd yn cael ei dathlu rywbryd tua diwedd Ionawr. Dealla'r Dinesydd fod wyth o gwmniau wedi mentro i'r maes ond os oes rhai eto i ddod, fe fydd yn bleser trefnu ar eu cyfer. Teimla amryw y byddai cael gŵyl flynyddol yn fodd i glymu'r cymdeithasau Cymraeg yn glosiach yn ei gilydd - ac eto, mae'n ddigon posibl y daw rhyw Sarah Siddons neu Garrick newydd i'r amlwg......**

# RHYS POWYS



Rai wythnosau yn ôl darlledodd y BBC noson o raglenni o Gymru ar Radio 3, a noson ddifyr iawn oedd hi hefyd. Wn i ddim ai rhagflas ydoedd o'r hyn y gellir ei ddisgwyl pan geir tonfedd Gymreig (ochr yn ochr â thonfedd Gymraeg) yn darlledu rhaglenni Saesneg am Gymru neu rai wedi eu gwneud yng Nghymru, neu o ddiddordeb arbennig i'r wlad: os felly, mae'n argoeli'n dda iawn am y donfedd honno.

Un o eitemau mwyaf diddorol y noson oedd y ddrama *Full Moon*, addasiad radio o gyfieithiad Menna Gallie o nofel Caradog Pritchard, *Un Nos Ola Leuad*, ac fe'm trawyd i'n arbennig gan yr actor a bortreadai'r arwr yn fachgen, gŵr ifanc o'r enw Rhys Powys. Roedd yr enw'n un newydd i mi o blith actorion Cymru a syndod oedd darganfod mai bachgen o Gaerdydd yw Rhys, sy'n ddisgybl ar hyn o bryd yn Rhydfelen (mae'n 13 oed ac yn y 3ydd dosbarth), ac yn un o ddarllenwyr pybyr *Y Dinesydd*.

**Gymaint oedd fy chwilfrydedd fel y penderfynais fynd i holi mwy o'i hanes. Problem oedd cael gafael arno gan ei fod bellach ar hanner ffilmio ar gyfer cynhyrchiad newydd BBC 2 o *How Green was My Valley*, ond llwyddais i'w ddal adref un noson a rhwng gorffen gwylio *Heddiw* (gyda thad Rhys, Alun Evans yn cyflwyno) a chychwyn gwers Almaeneg hanner awr yn ddiweddarach, fe gawsom sgwrs.**

Y cam mawr cyntaf i Rhys oedd cael ei ddewis o blith pymtheg o ddisgyblion Rhydfelen a gafodd arglywiadau gan y BBC i chwarae rhan y bachgen yn *Full Moon*. Er hynny, y mae wedi cymryd rhan yn y ddrama gyfres radio o nofel Alexander Cordell, *Rape of the Fair Country* ar Radio 4, a wedi actio mewn drama deledu i Thames Television sef *Shadows* (gan y dramodydd o Gymro, Ewart Alexander) a ddarlledwyd yn ddiweddar. Chwaraeodd rannau bach yn *Y Stafell Ddirgel* a *Tresarn* ar deledu BBC Cymru hefyd ac eleni bu'n recordio rhan ar gyfer record newydd Theatr yr Ymylon o Chwedlau gwerin Cymru sydd i ymddangos cyn hir.

Teimla fod y radio'n gyfrwng llawer anos i actor na theledu neu ffilm neu theatr fyw gan fod yn rhaid actio gyda'r llais yn unig a chyfleu pob teimlad ac ymateb felly, ond mae'n mwynhau actio ym mhob cyfrwng gan fod popeth yn newydd iddo ar y foment. Dal i fod yn nerfus cyn dechrau golygfa? "O ydw, mor nerfus ag erioed. Aiff hynny ddim byth." Ei unig gŵyn ynglŷn â'i rannau hyd yn hyn yw'r ffaith ei fod, wrth reswm, yn chwarae bechgyn ifanc - a thuedd rheini yw tyfu'n ddynion erbyn yr ail neu'r drydedd bennod, gan beri iddo yntau golli ei ran yn y ddrama!

Pan na fydd yn gorfod treulio ei benwythnosau a'i wyliau yn actio, prif ddiddordebau Rhys yn ei oriau hamdden yw nofio a chwareuon o bob math; mae hefyd yn chwarae'r gitar (a'r banjo, yr ukelele a'r mandolin fel y bydd angen) gyda grŵp pop yr ysgol. Yn ddiweddar, penderfynodd ddechrau dysgu Almaeneg drwy wersi nos bob wythnos, ac mae'n cael cryn hwyl arni (yn ôl ei dad, sydd ddim yn cael cystal hwyl ar y gwersi hyd yn hyn!) Ac yna, mae'n mwynhau rygbi, wrth gwrs, o safbwynt chwarae a gwylio'r gêm; un o'i brif bleserau yw mynd i weld pob gem y gall gael tocyn ar ei chyfer ym Mharc yr Arfau.

Un cwestiwn olaf felly: pe bai'n rhaid dewis rhwng bod yn actor byd-enwog a chwarae i dîm rygbi Cymru, beth fyddai penderfyniad Rhys? Ymateb brwd a phendant: "O, chwarae i Gymru, wrth gwrs." Yna, yn onest iawn, "Ond gan nad yw hynny byth yn debyg o ddigwydd, rwy'n credu mai gwell fyddai i mi sticio at actio." Rwyf innau'n gobeithio mai sticio ati wnaiff e hefyd - gan obeithio ar yr un pryd nad colled y tîm cenedlaethol fydd ennill Rhys Powys i theatr Cymru.

S.A.E.

**Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:**

**METELAU LLANDOW**

(ar Ystâd Fasnachol Llandow, ger Llanilltud Fawr) a gofynnwch am Mr John Pugh.

**Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!**
**RHIF FFÔN:**
**LLANILLTUD FAWR 2756**

**SIOP Y TRIBAN**

- Yr unig siop ag ynddi restr lawn o Gardiau Cyfarch Cymraeg.
- Y detholiad gorau yng Nghaerdydd o lyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru.

11 Wyndham Arcade,
Caerdydd

Ffôn : 30042

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*